# CYNLLUN MARCIO TAG UG

## HAF 2016

## ECONOMEG – UG NEWYDD UNED 2
## 252ON20-1

Fersiwn Cymraeg o'r cynllun marcio cyfrwng Saesneg gwreiddiol yw hwn. Ni chafodd ei ddefnyddio'n ymarferol yn y gynhadledd farcio.

© WJEC CBAC Cyf.

## RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd fersiwn gwreiddiol Saesneg y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

## CANLLAWIAU MARCIO CYFFREDINOL

### Marcio Cadarnhaol

Dylid cofio bod dysgwyr yn ysgrifennu dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae’r dysgwr yn ei ysgrifennu, yn hytrach na’i gosbi/chosbi am unrhyw bethau sydd wedi’u gadael allan. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael sero marciau. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy’n llai na pherffaith os yw’n bodloni meini prawf y cynllun marcio, ac ni ddylid ychwanegu marciau fel cysur lle nad ydynt wedi’u teilyngu.

Ar gyfer pob cwestiwn mae rhestr o gynnwys dangosol sy’n awgrymu’r amrywiaeth o gysyniadau busnes, theori, materion a dadleuon allai gael eu cynnwys yn atebion y dysgwyr. Ni fwriedir i hon fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai dysgwyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Mae’r cynlluniau marcio sy’n seiliedig ar lefelau yn is-rannu’r marc cyfan i’w ddyrannu i amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu bydd disgrifiad yn dangos y gwahanol sgiliau a nodweddion ar y lefel briodol. Mae atebion dysgwr i gwestiynau yn cael eu hasesu yn erbyn yr amcanion asesu unigol perthnasol a gallan nhw gyflawni bandiau gwahanol o fewn un cwestiwn. Rhoddir marc ar gyfer pob amcan asesu a dargedir yn y cwestiwn ac yna cyfrifir y cyfanswm i roi marc cyfan am y cwestiwn.

© WJEC CBAC Cyf.


**TAG ECONOMEG**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2016**

| | **Cynllun marcio** | **Cyfan -swm** |
|---|---|---|
| **Cw.1 (a)** | **Yn ôl Ffigur 2, cyfrifwch y gostyngiad canrannol ym mhris byd-eang olew rhwng 1 Mehefin 2014 a 1 Ionawr 2015.** ***Dangoswch eich gwaith cyfrifo.***<br><br>**AA2: 2 farc**<br><br>Ffigur 1 Meh yw $103.<br>Ffigur 1 Ion yw $55.<br>Gostyngiad % = ((55-103)/103)x 100 = **-46.6%** (Derbyn ateb positif neu negatif).<br><br>Derbyn +- 2 ($105 i $101) o ffigur 1 Meh a $53 i $57 ar gyfer ffigur 1 Ion. Felly, **mae atebion yn yr ystod -43% i -51% yn dderbyniol.**<br><br>**1 marc**<br>Dim ond1 rhif (1 Meh neu 1 Ion) sydd o fewn yr ystod dderbyniol (a roddir uchod) ond dydy'r llall ddim. Fel arall mae'r cyfrifo wedi'i berfformio'n gywir.<br><br>**0**<br>Dydy'r ddau ffigur ddim yn dderbyniol (o fewn yr ystod a roddir) er bod y cyfrifo wedi'i berfformio'n gywir.<br><br>Mae'r ffigurau'n gywir ond dydy'r ymgeisydd ddim wedi cyfrifo'r newid %. | **2** |

| Cw.1 (b) | **Gan ddefnyddio diagram galw a chyflenwad, esboniwch pam *'gostyngodd pris byd-eang olew yn sylweddol rhwng mis Mehefin 2014 a mis Ionawr 2015'* (*llinell 5*).** **[4]** | |
|---|---|---|
| **Band** | **AA1** | **AA2** |
| | **2 farc** | **2 farc** |
| | Ydy'r diagram yn gywir? | Ydy gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso at y cyd-destun i ddangos sut mae ffactorau galw a chyflenwad wedi newid? |
| **2** | **2 farc**<br>Mae galw'n symud i'r chwith A/NEU Mae cyflenwad yn symud i'r dde.<br><br>A<br><br>Dangos bod pris yn gostwng ar yr echelin-y. | **2 farc**<br>Nodi o'r data pam mae galw'n symud ("galw yn gostwng" ledled y byd) A/NEU pam mae cyflenwad yn symud ("cynhyrchu'n cynyddu" yn UDA).<br><br>AC<br><br>Esboniad bod hyn yn arwain at ostyngiad yn y pris. |
| **1** | **1 marc**<br>Dim ond un o'r uchod<br><br>Diagram cywir ond gwallau labelu afresymol. | **1 marc**<br>Dim ond un o'r uchod. |
| **0** | **0 marc**<br>Dim diagram neu ddiagram hollol anghywir. | **0 marc**<br>Dim cymhwyso. |

**Cynnwys dangosol:**




S = C
D = G
Q = M

© WJEC CBAC Cyf.

| Cw.1 (c) | **Trafodwch y safbwynt bydd defnyddwyr, gweithwyr a chwmnïau bob amser yn elwa os bydd eu gwlad ym mabwysiadu polisïau masnach rydd. [10]** | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **AA1** | **AA3** | **AA4** |
| | **3 marc** | **3 marc** | **4 marc** |
| | Mae'r ymgeisydd yn gallu nodi manteision masnach rydd | Ydy theori economaidd berthnasol wedi cael ei datblygu er mwyn gwneud dadleuon rhesymegol o blaid y safbwynt? | Ydy'r ateb yn gwerthuso'r pwyntiau sydd wedi'u gwneud eisoes ac yn cyfiawnhau'r pwyntiau gwerthusol hynny â theori economaidd? |
| **2** | **3 marc**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn **nodi** o leiaf **un fantais o fasnach rydd** i bob un o'r 3 asiant economaidd sy'n cael eu crybwyll yn y cwestiwn. | **3 marc**<br><br>Dadansoddi da o fanteision posibl masnach rydd i bob un o'r 3 asiant economaidd sy'n cael eu crybwyll yn y cwestiwn .<br><br>Mae'r dadansoddi'n dangos dealltwriaeth glir o fanteision masnach rydd. | **3-4 marc**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn datblygu dadleuon economaidd rhesymegol, cadarn sy'n helpu i wrthddadlau'r safbwyntiau a fynegir yn AA3.<br><br><u>Rhaid</u> i ymgeiswyr yn y band hwn geisio ystyried o leiaf 2 o'r 3 asiant economaidd sydd wedi'u nodi. |
| **1** | **1-2 farc**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn nodi manteision masnach rydd i rai asiantau (ond nid pob un)<br><br>NEU<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth glir o fasnach rydd (1) | **1-2 farc**<br><br>Dadansoddi cyfyngedig o fanteision posibl masnach rydd i rai asiantau (ond nid pob un).<br><br>Mae'r dadansoddi'n dangos dealltwriaeth arwynebol o fanteision masnach rydd. | **1-2 farc**<br><br>Mae'r ymgeisydd ddim ond yn datblygu dadleuon economaidd cyfyngedig sy'n helpu i wrthddadlau'r safbwyntiau a fynegir yn AA3.<br><br>Rhaid i ymgeisydd gael ei gadw ym Mand 1 os yw wedi ystyried 1 yn unig o'r 3 asiant sydd wedi'u nodi. |
| **0** | **0 marc**<br>Dim manteision masnach rydd wedi'u nodi A dim dealltwriaeth o fasnach rydd wedi'i dangos. | **0 marc**<br><br>Datblygu wedi'i gynnig ond mae'n ddamcaniaethol anghywir neu wedi'i ddatblygu'n anfoddhaol. | **0 marc**<br><br>Gwerthuso wedi'i gynnig ond mae'n ddamcaniaethol anghywir neu wedi'i ddatblygu'n anfoddhaol . |

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynnwys dangosol:**

Does dim gofyniad i gyfeirio at/defnyddio y data yn yr ateb, ond efallai bydd ymgeiswyr eisiau gwneud hynny. Gall ymgeiswyr wneud y dadleuon canlynol:

Masnach rydd

- Mae gan gwmnïau mewnol y cyfle i edrych y tu hwnt i'w ffiniau am alw. Felly mae mwy o botensial am werthiant, derbyniadau ac elw – sydd yn ei dro yn arwain at dwf economaidd uwch a lefelau uwch o gyflogaeth. Er enghraifft, mae cynhyrchion mwyaf Rwsia – nwy ac olew – yn cael eu gwerthu mewn meintiau mawr i'r UE sy'n dangos bod swyddi yn y diwydiannau hyn yn gwbl ddibynnol ar fasnach dramor.

- Fel arfer mae masnach rydd yn ddymunol i ddefnyddwyr gan ei bod yn arwain at brisiau is (os yw gwledydd yn arbenigo yn y diwydiannau lle mae ganddyn nhw fantais gymharol).

- Mae masnach rydd hefyd yn gwella lefel y dewis o nwyddau a gwasanaethau mewn gwlad. Er enghraifft, byddai defnyddwyr Rwsia wedi cael mynediad at nifer mawr o nwyddau amaethyddol sy'n cael eu cynhyrchu yn yr UE, mynediad nad oes ganddyn nhw nawr.

- Mae masnach rydd yn caniatáu i gwmnïau fanteisio ar ddarbodion maint sydd yn y pen draw yn gallu cynyddu'r gallu i gystadlu a diogelu cyflogaeth.

- Efallai bydd ymgeiswyr yn nodi'r ffaith bod Rwsia, ers y sancsiynau, wedi disgyn i mewn i enciliad gan ddangos bod llawer o'i heconomi yn ddibynnol ar fasnach â gwledydd tramor. Mae sancsiynau wedi arwain at ostyngiad o 25% o gyfanswm ei hallforion sy'n dangos y bydd cwmnïau'n cael lefelau is o dderbyniadau ac mae hyn, yn ei dro, yn ymhlygu y gall colledion swyddi ddilyn.

Fodd bynnag,

- Dydy masnach rydd ddim yn angenrheidiol os yw'r diwydiant mewnol yn ddigon mawr i fodloni galw'r defnyddwyr mewnol. Er enghraifft, mae Rwsia'n wlad fawr ac efallai bod digon o alw mewnol i fodloni busnesau mewnol.

- Yn aml mae gwledydd yn cael trafferth i aros yn gystadleuol pan fyddan nhw'n cael eu hagor i fasnach rydd. Yn yr achosion hyn, gall colledion swyddi a thwf economaidd fod yn agored i niwed ac felly efallai bydd diffynnaeth yn bolisi addas. Mewn gwirionedd, efallai bydd gweithwyr yn well eu byd (mwy o sicrwydd swyddi) os oes gan eu llywodraeth safiad sydd â mwy o diffynnaeth.


- Efallai bydd diwydiannau mewnol yn anghystadleuol ac yn gorfod cau – ac felly yn amddifadu defnyddwyr lleol o'u cynhyrchion sydd wedi'u gwneud yn lleol.

- Mae masnach rydd yn agor posibiliadau Gorllewineiddio – achos pryder arbennig i Rwsia.

- Gall masnach rydd olygu bod y Llywodraeth yn colli'r gallu i amddiffyn diwydiannau mewnol 'strategol' a all olygu bod rhai sgiliau medrus penodol dan fygythiad.

| Cw.1(ch) | **Gan ddefnyddio diagram cyfraddau cyfnewid, esboniwch pam cwympodd rwbl Rwsia rhwng 2014 a 2015 (*llinellau 34-35*). [6]** | |
|---|---|---|
| **Band** | **AA1** | **AA2** |
| | **2 farc** | **4 marc** |
| | Ydy'r diagram yn gywir? | Ydy'r theori economaidd yn cael ei chymhwyso at y cyd-destun i esbonio pam mae pris olew wedi gostwng? |
| **2** | **2 farc**<br><br>Galw yn symud i'r chwith<br><br>A HEFYD<br><br>Cyflenwad yn symud i'r dde. | **3-4 marc**<br><br>Ffactorau ochr-alw wedi'u nodi (1) a'u cysylltu â phwysau tuag i lawr ar bris y Rwbl (1)<br><br>A<br><br>Ffactorau ochr-gyflenwad wedi'u nodi (1) a'u cysylltu â phwysau tuag i lawr ar bris y Rwbl (1)<br><br>SYLWCH: <u>os yw ffactorau G ac C wedi'u nodi'n gywir</u> efallai bydd dim ond un esboniad o bwysau tuag i lawr ar bris – gellir rhoi marciau am hynny (2). |
| **1** | **1 marc**<br><br>Dim ond Galw<br><br>NEU<br><br>Gyflenwad wedi'i nodi.<br><br>NEU<br><br>Y ddwy gromlin yn cael eu symud yn gywir ond mae gwall labelu afresymol. | **1-2 farc**<br><br>Dim ond 1-2 elfen o'r band uchod. |
| **0** | **0 marc**<br><br>Dim diagram neu ddiagram hollol anghywir. | **0 marc**<br><br>Dim o'r uchod. |

**Cynnwys dangosol**




Ffactorau wedi'u nodi a'u hesbonio:

1. Mae galw am y rwbl yn symud i'r chwith – Allforion yn gostwng o ganlyniad i sancsiynau economaidd ac felly diffyg galw. Hefyd, gellid dadlau yn nhermau Mewnlif Cyfalaf yn gostwng o ganlyniad i ostyngiad yn hyder busnes i fuddsoddi yn Rwsia.

2. Mae cyflenwad y rwbl yn symud i'r dde – Mae hyder defnyddwyr yn gostwng ac, o ganlyniad, mae unigolion a busnesau yn gwerthu eu hasedau mewnol ac yn rhoi eu harian dramor. Felly, mae all-lif cyfalaf yn cynyddu. Gellid dadlau bod mewnforion wedi gostwng o ganlyniad i sancsiynau hefyd.

© WJEC CBAC Cyf.

| Cw.1(d) | **Trafodwch effeithiolrwydd tebygol polisi ariannol Rwsia yn ei ymdrech i gefnogi'r rwbl. [8]** | |
|---|---|---|
| **Band** | **AA3** | **AA4** |
| | **4 marc** | **4 marc** |
| | Ydy theori economaidd berthnasol wedi cael ei datblygu er mwyn gwneud dadleuon rhesymegol o blaid y drafodaeth? | Ydy'r ateb yn gwerthuso'r pwyntiau sydd wedi'u gwneud eisoes ac yn cyfiawnhau'r pwyntiau gwerthusol hynny â theori economaidd? |
| **2** | **3-4 marc**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn datblygu'n llawn dau linyn o ddadansoddi da sy'n dadlau am sut mae polisi ariannol yn gallu arbrisio'r Gyfradd Cyfnewid.<br><br>Mae theori economaidd yn cael ei datblygu'n gywir ac yn dda ym mhob cam. | **3-4 marc**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn gwerthuso'n llwyddiannus neu'n darparu dwy wrthddadl dda i'r pwyntiau sydd wedi'u gwneud yn AA3. Efallai bydd yr ymgeisydd eisiau defnyddio'r data yn ei (h)ateb – ond dydy hyn ddim yn ofyniad absoliwt (bydd yn amlwg yn helpu yn y rhan fwyaf o achosion!). Mae pwyntiau'n cael eu datblygu gan ddefnyddio theori economaidd dda a/neu ddefnydd da o'r data. |
| **1** | **1-2 farc**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn datblygu dim ond un llinyn o ddadlau am sut mae polisi ariannol yn gallu arbrisio Cyfraddau Cyfnewid.<br><br>NEU<br><br>Mae'r ymgeisydd yn cynnig dau bwynt (neu fwy) ond mae'r theori economaidd ddim ond yn rhannol gywir neu dydy'r ymgeisydd ddim yn datblygu'r pwyntiau o ran Cyfraddau Cyfnewid yn foddhaol. | **1-2 farc**<br><br>Mae'r ymgeisydd ddim ond yn cynnig un pwynt gwerthusol da i bwynt yn AA3.<br><br>NEU<br><br>Mae'r ymgeisydd yn cynnig dau bwynt (neu fwy) ond mae'r theori economaidd ddim ond yn rhannol gywir neu dydy'r ymgeisydd ddim yn datblygu'r pwyntiau o ran Cyfraddau Cyfnewid yn foddhaol. |
| **0** | **0 marc**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn nodi bod cyfraddau llog (neu ymyriad ym marchnadoedd ariannau cyfred neu reoli cyfalaf) yn rhan o bolisi ariannol ond mae'n methu'n llwyr â datblygu'r pwynt hwn i gysylltu â'r Gyfradd Cyfnewid yn foddhaol. | **0 marc**<br><br>Dim gwerthuso wedi'i gynnig.<br><br>NEU<br><br>Mae gwerthuso wedi'i gynnig ond mae'r theori economaidd yn anghywir neu mae'n cael ei datblygu'n anfoddhaol o ran Cyfraddau Cyfnewid. |

**Cynnwys dangosol:**

Efallai bydd ymgeiswyr yn gwneud y dadleuon canlynol.

Bydd yn arbrisio'r Gyfradd Cyfnewid.

*SYLWCH: I ddatblygu dau linyn i'r ddadl, rhaid i'r ymgeisydd (drwy ddiffiniad) gynnig mwy na dim ond dadl cyfraddau llog.*

- Mae cyfraddau llog wedi cael eu cynyddu. Fel arfer byddai hyn yn achosi i'r Gyfradd Cyfnewid arbrisio gan fod cyfradd yr adenillion ar gynilion yn uwch. Mae Mewnlif Cyfalaf yn cynyddu ac All-lif Cyfalaf yn gostwng. Gwnaeth Banc Canolog Rwsia hyn ac felly roedd ei bolisi'n gywir.

- Penderfynodd Banc Canolog Rwsia beidio â gweithredu rheoli cyfalaf. Byddai rheoli cyfalaf wedi unioni problemau ymadawiad cyfalaf ac felly cadw'r rwbl yn artiffisial uchel. Efallai, felly, gwnaeth Banc Canolog Rwsia y penderfyniad anghywir.

- Mae gwerthu ariannau cyfred tramor i brynu arian cyfred mewnol yn helpu i gynnal y gyfradd cyfnewid drwy gynyddu galw a chreu pwysau tuag i fyny ar 'bris' rwblau. Gwnaeth Banc Canolog Rwsia hyn ac felly roedd ei bolisi'n gywir.

Gwerthuso Posibl

- Fodd bynnag, mae hyder defnyddwyr yn isel iawn ac felly, er gwaethaf y cyfraddau llog uchel, roedd defnyddwyr a busnesau yn dal yn awyddus iawn i fynd â'u harian allan o Rwsia. Felly, roedd cyfraddau llog yn aneffeithiol. Hefyd, maen nhw'n debygol o rwystro economi Rwsia ac, yn arbennig, buddsoddi a chynhyrchedd yn y dyfodol sy'n golygu y gall Rwsia fod yn llai cystadleuol yn y dyfodol.

- Wedi dweud hynny, mae rheoli cyfalaf yn aml yn arwain at leihau hyder busnes ac aflonyddwch gwleidyddol yn ogystal â bod yn anodd ei weithredu – yn enwedig mewn gwlad fel Rwsia. Felly efallai bod Banc Canolog Rwsia wedi sylweddoli nad oedd llawer i'w ennill yno.

- Fodd bynnag, o edrych ar y data, mae'n ymddangos bod gwerthu ariannau cyfred tramor wedi bod yn aneffeithiol (eto, efallai o ganlyniad i ddiffyg hyder ac ymadawiad cyfalaf). Hefyd, mae'r maint enfawr o werthiant (gwerth $110bn o'r gronfa-wrth-gefn o ariannau cyfred tramor) yn swm anhygoel o fawr ac mae'n gadael Banc Canolog Rwsia yn agored i niwed mewn unrhyw gwymp arian cyfred yn y dyfodol. Pan fydd y gronfa-wrth-gefn o ariannau cyfred tramor yn dod i ben, efallai bydd yn rhaid i Rwsia gael benthyciad gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol/Banc y Byd ac ni fyddai hynny'n ddymunol.

Mae'r ateb yn gildroadwy.

| Cw.1 (dd) | **I ba raddau y gellir dweud mai chwyddiant isel ddylai fod prif amcan macro-economaidd Rwsia? [10]** | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **AA2** | **AA3** | **AA4** |
| | **2 farc** | **4 marc** | **4 marc** |
| | Ydy'r ymgeisydd wedi defnyddio tystiolaeth ansoddol a/neu feintiol? | Ydy'r ateb yn esbonio'n llawn pam mae llywodraethau'n ceisio cyflawni targedau chwyddiant isel yn Rwsia? | Ydy'r ateb yn gwerthuso'r pwyntiau sydd wedi'u gwneud eisoes ac yn cyfiawnhau'r rhai a werthuswyd â theori economaidd? |
| **2** | **2 farc**<br><br>Cyfeirio clir at y data.<br><br>Mae'r pwyntiau wedi'u cyd-destuno'n helaeth o fewn fframwaith y data Rwsiaidd uchod a defnyddir tystiolaeth niferus i gefnogi'r ateb. | **3-4 marc**<br><br>Dadansoddiad da sy'n datblygu dau bwynt yn llawn ac yn gwneud esboniad economaidd cryf o pam mai targedau chwyddiant isel yw'r amcan pwysicaf. | **3-4 marc**<br><br>Gwerthusiad da sy'n datblygu dau bwynt yn llawn ac yn gwneud esboniad economaidd cryf o pam nad targedau chwyddiant isel yw'r amcan pwysicaf.<br><br>Efallai bydd yr ateb yn ystyried pwysigrwydd cymharol amcanion macro eraill. |
| **1** | **1 marc**<br><br>Defnydd cyfngedig o'r data.<br><br>Mae'r data ddim ond yn cael eu defnyddio'n benodol i lunio dadl ar un adeg. | **1-2 farc**<br><br>Dim ond un pwynt wedi'i gynnig – sy'n dangos dadansoddi da.<br><br>NEU<br><br>Sawl pwynt â dadansoddi cyfyngedig yn unig. | **1-2 farc**<br><br>Dim ond un pwynt wedi'i gynnig – sy'n dangos gwerthuso da<br><br>NEU<br><br>Sawl pwynt â gwerthuso cyfyngedig yn unig. |
| **0** | **0 marc**<br><br>Dim data wedi'u defnyddio.<br><br>Neu<br><br>Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio data yn yr ateb ond nid i ddatblygu dadl ac ni chyfeirir atyn nhw mewn unrhyw ystyr ystyrlon.<br><br>NEU<br><br>Mae pob pwynt sydd wedi'i wneud ar gyfer AA3 ac AA4 yn generig a heb ei gyfiawnhau gan ddefnyddio data. | **0 marc**<br><br>Mae'r ymgeisydd ddim ond yn nodi materion ond nid yw'n eu datblygu nhw o gwbl. | **0 marc**<br><br>Dim gwerthuso wedi'i gynnig.<br><br>NEU<br><br>Mae'r ymgeisydd ddim ond yn nodi materion ond nid yw'n eu datblygu nhw o gwbl. |

**Cynnwys dangosol:**

Efallai bydd ymgeiswyr yn gwneud y dadleuon canlynol:

- Mae lefelau uchel o chwyddiant yn golygu bod Rwsiaid nawr heb unrhyw fath o arian parod i'w wario ar ôl prynu bwyd ac eitemau sylfaenol eraill. Felly mae lefelau twf economaidd a chyflogaeth yn y fantol oni ellir dod â chwyddiant dan reolaeth.

- Oherwydd lefelau uchel o chwyddiant, mae lefelau tlodi nawr ar eu huchaf ers 10 mlynedd gyda bron pob chweched person yn ennill llai na lefel isafswm cynhaliaeth. Mae hyn yn golygu bod y diffyg cyllidol mewn perygl oherwydd gall tlodi arwain at gynnydd yn lefelau budd-daliadau.

- Hefyd, os bydd tlodi'n parhau bydd y Llywodraeth yn casglu llai o dderbyniadau treth o dreth ar werthiant ac felly gall y diffyg cyllidol fynd yn waeth.

- Mae economi Rwsia wedi dioddef yn anhygoel o ganlyniad i ostyngiadau enfawr mewn allforion. Mae hyn yn debygol o barhau os yw chwyddiant mor uchel. Mae angen i Rwsia ganolbwyntio ar ostwng chwyddiant fel y gallan nhw ddod yn gystadleuol ym marchnadoedd y byd eto.

Gwrthddadleuon

- Mae'n ymddangos bod Banc Canolog Rwsia yn hyderus ei fod yn gallu dod â chwyddiant dan reolaeth gyda'i ddefnydd o bolisi ariannol, ac felly ni ddylai chwyddiant gael ei ystyried yn flaenoriaeth mor fawr.

- Ar hyn o bryd, mae Rwsia mewn enciliad ac felly mae'n bosibl mai twf economaidd ddylai fod y brif flaenoriaeth. Gellir ei gyflawni yn ogystal â thargedau chwyddiant isel os defnyddir polisïau ochr-gyflenwad.

- Y broblem gyda'r fantol fasnach yw ei bod yn cael ei hachosi gan y sancsiynau economaidd yn hytrach na bod yn anghystadleuol oherwydd chwyddiant. Mewn gwirionedd, mae Rwsia'n gystadleuol iawn mewn nwyddau fel olew ac felly dylai geisio meithrin gwell cysylltiadau masnach yn hytrach na chanolbwyntio ar chwyddiant am y tro.

- Gyda phrisiau olew mor isel, mae diffyg cyllidol Rwsia yn gwaethygu ac mae hyn yn arwain at doriadau mawr yng ngwariant y Llywodraeth fydd efallai yn cael mwy o effaith ar dlodi na chwyddiant.

- Mae dadl generig y gall diweithdra isel fod yn well amcan macro i'w ddilyn gan y bydd hyn yn cynyddu derbyniadau trethi i'r llywodraeth, yn cynyddu CMC a gobeithio yn arwain at fuddsoddi dilynol (effaith cyflymydd) yn gredadwy hefyd fel AA4 (ond nid AA2).

Mae'r ateb yn gildroadwy.

© WJEC CBAC Cyf.

| | | Cyfan -swm |
|---|---|---|
| **Cw.2 (a)** | **Esboniwch ystyr: "Gan ddefnyddio rhif indecs o 100 ar gyfer y DU gyfan, sgoriodd Cymru 72.2 yn unig" (*llinellau 11-13*)**<br><br>**AA1: 2 farc**<br><br>Rhoi **2 farc** am ddangos dealltwriaeth glir bod ffigur Cymru am *GVA* y pen 27.8% yn is na ffigur y DU gyfan ar yr adeg honno. Hefyd derbyn ei fod yn 72.2% o *GVA* y pen y DU.<br><br>Rhoi **1 marc** am ddealltwriaeth bod mynegrifau'n dangos perfformiad cymharol – er enghraifft, "Mae *GVA* Cymru yn is na'r DU" neu efallai nad yw'r data'n cael eu dehongli'n gywir (e.e. "Mae *GVA* Cymru 72.2% yn is na'r DU"). | **2** |

| | **Cynllun marcio** | **Cyfan -swm** |
|---|---|---|
| **Cw.2 (b)** | **Esboniwch, gan ddefnyddio enghraifft, pam mae William Graham yn credu nad yw'r cynnydd o 3.4% yn *GVA* y person mor dda ag mae'n ymddangos (*llinellau 24-26*).**<br><br>**AA1: 2 farc**<br><br>Rhoi **1 marc** am ddealltwriaeth glir nad yw 3.4% yn llawer o gynnydd absoliwt os yw'n dod o sail isel.<br><br>Rhoi **1 marc** arall am ddefnyddio enghraifft/rhesymu mathemategol i gefnogi'r esboniad uchod. | **2** |

| | **Cynllun marcio** | **Cyfan -swm** |
|---|---|---|
| **Cw.2 (c)** | **Esboniwch ystyr 'proses luosydd' (*llinellau 28-29*)**<br><br>**AA1: 2 farc**<br><br>**2 farc**<br><br>Mae'r esboniad yn cynnwys cyfeirio at **chwistrelliad cychwynnol/neu gynnydd mewn GC** (o Loegr)<br><br>A<br><br>bod hyn yn arwain at **effaith derfynol lawer mwy ar lefel incwm gwladol** (yng Nghymru).<br><br>**1 marc**<br><br>Dim ond un o'r pwyntiau uchod wedi'i wneud. | **2** |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cw.2 (ch) | **Gan gyfeirio at theori economaidd, esboniwch ddau reswm posibl dros y gwahaniaethau yn y cyflogau crynswth wythnosol cyfartalog *yng Nghymru* sydd i'w gweld yn Ffigur 4. [6]** | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **AA1** | **AA2** | **AA3** |
| | **2 farc** | **2 farc** | **2 farc** |
| | Ydy ffactor perthnasol sy'n effeithio ar wahaniaethau cyflog wedi cael ei nodi a'i ddeall? | Ydy'r ffactor wedi cael ei roi yng nghyd-destun economi Cymru? | Ydy'r cyswllt â gwahaniaethau cyflog wedi cael ei esbonio ? |
| **2** | **2 farc**<br><br>2 ffactor cywir wedi'u nodi. | **2 farc**<br><br>Y ddau ffactor wedi'u cymhwyso'n gywir at economi Cymru. | **2 farc**<br><br>Effaith ar wahaniaethau cyflog wedi'i hesbonio <u>neu</u> ei chefnogi gan ddiagram ar gyfer y ddau ffactor. |
| **1** | **1 marc**<br><br>1 ffactor wedi'i nodi. | **1 marc**<br><br>1 ffactor wedi'i gymhwyso'n gywir at economi Cymru neu rywfaint o gymhwyso cyffredinol at economi Cymru. | **1 marc**<br><br>Effaith ar wahaniaethau cyflog wedi'i hesbonio neu ei chefnogi gan ddiagram ar gyfer un o'r ffactorau. |
| **0** | **0 marc**<br><br>Dim ffactor neu ffactor anghywir wedi'i nodi. | **0 marc**<br><br>Dim cymhwyso. | **0 marc**<br><br>Dim dadansoddi. |

**Cynnwys dangosol:**

Caniatáu unrhyw ffactor credadwy, ond gallai pwyntiau posibl gynnwys:

- Gwahaniaeth rhanbarthol posibl mewn diweithdra – uchel yng Ngorllewin Cymru a'r cymoedd, ac felly yn rhoi pwysau tuag i lawr yng Nghymru.

- Cysylltiadau â Lloegr – Mae De-ddwyrain Cymru wedi'i chysylltu'n dda ar hyd coridor yr M4, gan gynyddu cyfleoedd cyflogaeth – felly galw uwch am weithwyr a chyflenwad is o weithwyr yn yr ardal honno. Mae Gogledd Cymru'n cysylltu â Glannau Merswy.

- Strwythur economaidd a sgiliau sydd ar gael. Mae gan Dde-ddwyrain Cymru brifysgol Caerdydd ac isadeiledd da (gyda mwy wedi'i gynllunio) sy'n ei gwneud yn atyniadol i gyflogwyr, ac felly yn cynyddu galw yn yr ardal. Mae twristiaeth yn bwysicach mewn rhai ardaloedd na'i gilydd.

- Sector cyhoeddus yn erbyn sector preifat – Mae Cymru'n eithaf dibynnol ar y sector cyhoeddus (25% o swyddi) ac mae gweithwyr sector cyhoeddus yn ennill 18% yn fwy na'u cyfatebwyr yn y sector preifat. Mae cyflogaeth sector cyhoeddus yn arbennig o isel yng nghanolbarth Cymru.

Patrymau gwahaniaethau a natur mudo yn creu ffactorau lleoledig.

<table>
<tr><td>Cw.2 (d)</td><td colspan="3">Gwerthuswch honiad llywodraeth Cymru bod ei chynllun economaidd tymor hir wedi bod yn llwyddiannus [10]</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Band</td><td>AA2</td><td>AA3</td><td>AA4</td></tr>
<tr><td>2 farc</td><td>4 marc</td><td>4 marc</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>2</td><td>2 farc<br><br>Mae'r ateb wedi'i gyd-destuno'n dda gan wneud defnydd llawn ac effeithiol o'r data ar ddwy ochr y ddadl.</td><td>3-4 marc<br><br>Dadansoddiad da sy'n datblygu'n llawn o leiaf dau linyn o ddadlau i esbonio'r ffyrdd mae economi Cymru wedi perfformio'n dda (gan esbonio'r ffyrdd mae perfformiad wedi bod yn 'llwyddiannus', nid yn unig nodi nodweddion da!)<br><br>Rhaid i'r ymgeisydd wneud cysylltiad clir rhwng polisi a chanlyniadau.</td><td>3-4 marc<br><br>Mae'r ymgeisydd yn gwerthuso'n llwyddiannus neu'n darparu dwy wrthddadl dda i'r pwyntiau a wneir yn AA3.</td></tr>
<tr><td>1</td><td>1 marc<br><br>Defnydd cyfyngedig o'r data.<br><br>Mae'r ateb yn gwneud rhywfaint o ddefnydd o'r data, ond dim ond ar un ochr i'r achos, neu mae pwyntiau'n cael eu cymhwyso at yr achos ond dydyn nhw ddim yn ganolog i lwyddiant economaidd.</td><td>1-2 farc<br><br>Dim ond un pwynt wedi'i gynnig – sy'n dangos dadansoddi da.<br><br>NEU<br><br>Sawl pwynt sydd â dadansoddi cyfyngedig yn unig.</td><td>1-2 farc<br><br>Dim ond un pwynt wedi'i gynnig – sy'n dangos gwerthuso da.<br><br>NEU<br><br>Sawl pwynt sydd â gwerthuso cyfyngedig yn unig.</td></tr>
<tr><td>0</td><td>0 marc<br><br>Mae'r ateb yn codi'r data yn unig heb lunio dadl o'u hamgylch.</td><td>0 marc<br><br>Nodi pwyntiau heb ddadansoddi neu ddadansoddi anghywir.<br><br>Dim ond ailadrodd y data heb esbonio.</td><td>0 marc<br><br>Nodi pwyntiau heb ddadansoddi neu ddadansoddi anghywir.<br><br>Dim ond ailadrodd y data heb esbonio.<br><br>Mae'r gwerthuso'n arwynebol yn unig.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynnwys dangosol:**

- Mae *GVA* y pen yn cynyddu'n gyflym ac mae'r bwlch â Lloegr yn cau. Efallai bod hyn yn gysylltiedig ag ymdrechion Cynulliad Cymru i dargedu sectorau allweddol, annog arloesi ac yn y blaen.
- Mae allforion Cymru wedi dyblu ers datganoli, a allai eto gael ei briodoli i bolisïau llywodraeth Cymru. Bydd hyn wedi cyfrannu at y cynnydd cyflym yn *GVA* y pen.
- Mae llywodraeth Cymru hefyd yn honni llwyddiant yn denu buddsoddi o'r tu allan. Mae'n bosibl bod y buddsoddi hwn o'r tu allan (ar y lefelau uchaf erioed) wedi digwydd o ganlyniad i'r canolbwyntio gan y llywodraeth ar gefnogi sectorau allweddol ac adeiladu sgiliau ac isadeiledd.
- Mae diweithdra'n gostwng yn gyflymach nag yw mewn unrhyw ardal arall yn y DU. Mae'n debygol bod hyn yn ganlyniad i'r buddsoddi mewn sgiliau ac arloesi ond hefyd y canolbwyntio ar annog buddsoddi o'r tu allan.

Gwerthuso Posibl
*SYLWCH: Gellir ei ddadlau o'r naill neu'r llall o'r ddwy ffordd ganlynol:*

1. Y syniad nad oes llwyddiant economaidd wedi digwydd.

2. Dydy unrhyw lwyddiant a gafwyd ddim wedi bod yn ganlyniad i gynllun economaidd llywodraeth Cymru.

- Mae perfformiad *GVA* yn dal yn is o lawer na Lloegr – felly mae llwyddiant economaidd ar y gorau yn gymharol.
- Mae diweithdra'n uwch o lawer na chyfartaledd y DU.
- Yn ôl Karel Williams, mae llawer o dwf y *GVA* wedi dod o gysylltiadau â De Lloegr sy'n tyfu'n gyflym ac nid yw'n gysylltiedig o gwbl â llywodraeth Cymru.
- Yn ôl William Graham, mae'r gwelliannau'n gysylltiedig yn fwy â pholisïau yn San Steffan nag unrhyw beth mae Cynulliad Cymru wedi ei wneud.
- Mae'n rhaid bod rhywfaint o'r gwelliant yn gysylltiedig ag adferiad economaidd byd-eang, yn hytrach nag unhyw beth sy'n gysylltiedig â datganoli.
- Hyd yn oed os cafwyd llwyddiant, mae'r llywodraeth wedi cael ei beirniadu am ei diffyg uchelgais a bod y polisïau'n arwain at welliant ffiniol yn unig.

© WJEC CBAC Cyf.

<table>
<tr><td>Cw.2 (dd)</td><td colspan="3">Trafodwch a yw polisi o fenthyca helaeth (borrowing heavily) i fuddsoddi mewn projectau cyfalaf bob amser yn debygol o fod yn fanteisiol i lefelau cyflogaeth a thwf economaidd [8]</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Band</td><td>AA1</td><td>AA3</td><td>AA4</td></tr>
<tr><td>2 farc</td><td>2 farc</td><td>4 marc</td></tr>
<tr><td></td><td>Ydy’r ateb yn dangos dealltwriaeth dda o fanteision posibl y senario a amilinellwyd?</td><td>Ydy’r syniadau AA1 wedi cael eu datblygu a’u cysylltu â’r manteision i economi?</td><td>Ydy gwrthddadleuon wedi cael eu gwneud a’u datblygu?</td></tr>
<tr><td>2</td><td>2 farc<br><br>Mae’r ymgeisydd yn gallu nodi manteision buddsoddi mewn projectau cyfalaf i’r 2 amcan macro.<br><br>Mae’r ymgeisydd yn nodi o leiaf un fantais i ddiweithdra (1) AC un fantais i dwf economaidd (1).</td><td>2 farc<br><br>Dadansoddi da o fanteision buddsoddi mewn projectau cyfalaf i’r 2 amcan macro.<br><br>Mae’r dadansoddi’n dangos dealltwriaeth glir.</td><td>3-4 marc<br><br>Mae’r ymgeisydd yn datblygu dadleuon economaidd rhesymegol, cadarn sy’n helpu i wrthddadlau’r safbwyntiau a fynegir yn AA3.<br><br><u>Rhaid</u> i ymgeiswyr yn y band hwn roi cynnig ar ystyried y ddau amcan macro<br>NEU un amcan macro <u>a</u> gwerthusiad o effeithiau negyddol benthyca i ariannu gwariant cyfalaf.<br><br>Efallai bydd y gwerthuso’n cynnwys cyd-destun y data am Gymru.</td></tr>
<tr><td>1</td><td>1 marc<br><br>Mae’r ymgeisydd yn nodi o leiaf un fantais i ddiweithdra (1)<br><br>NEU<br><br>un fantais i dwf economaidd (1).</td><td>1 marc<br><br>Dadansoddi da o fanteision buddsoddi mewn projectau cyfalaf i 1 amcan macro .<br><br>NEU<br><br>Dadansoddi cyfyngedig o fanteision buddsoddi mewn projectau cyfalaf i’r 2 amcan macro .</td><td>1-2 farc<br><br>Mae’r ymgeisydd ddim ond yn datblygu dadleuon economaidd cyfyngedig sy’n helpu i wrthddadlau’r safbwyntiau a fynegir yn AA3.<br><br>Rhaid i ymgeisydd gael ei gadw ym Mand 1 os yw ddim ond wedi ystyried 1 amcan macro neu ddim ond wedi ystyried effaith benthyca.</td></tr>
<tr><td>0</td><td>0 marc<br><br>Does dim dealltwriaeth y gallai’r benthyca greu manteision economaidd.</td><td>0 marc<br><br>Mae’r ateb yn datgan yr effeithiau ar economi Cymru heb esbonio.</td><td>0 marc<br><br>Ateb unochrog.</td></tr>
</table>

**Cynnwys dangosol:**

**Manteisiol**

- Mae diweithdra Cymru yn uwch na diweithdra'r DU gyfan, ac felly efallai bydd projectau o'r fath yn cynyddu GC, gan ostwng diweithdra yng Nghymru drwy effeithiau lluosydd.
- Mae adeiladu projectau cyfalaf ynddyn nhw eu hunain yn creu swyddi ar gyfer gweithwyr adeiladu ayb …
- Efallai bydd projectau fel y Metro a band llydan cyflymder uchel yn hybu mwy o fuddsoddi o'r tu allan gan greu swyddi a chynyddu cyflogau.
- Efallai bydd projectau fel y rhain yn cynyddu cynhyrchedd a buddsoddi a thrwy hynny gynyddu twf (CC) posibl yn y tymor hir.
- Mae angen polisïau radicalaidd os yw bwlch *GVA* y pen â Lloegr i gael ei gau. Efallai bod projectau cyfalaf yn ddrud ond byddan nhw'n cynhyrchu'r cynnydd sylweddol mewn twf sy'n angenrheidiol.

**Ddim yn fanteisiol (yn ogystal â'r pwyntiau gwerthusol uchod):**

- Efallai bydd crynhoi rhanbarthol o'r projectau yn achosi gostyngiad lleoledig mewn diweithdra ond mae'n annhebygol o ostwng diweithdra ledled Cymru.
- Efallai bydd llawer o swyddi yn adeiladu'r projectau cyfalaf yn cael eu gwneud gan weithwyr o Loegr a chwmnïau adeiladu o Loegr ac felly bydd unrhyw effaith luosydd yng Nghymru yn gyfyngedig.
- Efallai bydd cynnydd tymor-byr mewn GC yn creu chwyddiant (lleoledig) a all niweidio twf economaidd yn yr ardal leol – a'r creu swyddi mewn sectorau eraill.
- Efallai bydd tuedd ddeheuol y gwariant arfaethedig yn cynyddu anghydraddoldebau yng Nghymru a'r problemau cysylltiedig.
- Bydd yn rhaid i fenthyca uwch gael ei ad-dalu, gan roi baich ar gyllid llywodraeth Cymru, cost ymwad ac yn y blaen. Efallai, fodd bynnag, bydd manteision ariannol sector cyhoeddus yn cael eu teimlo yn bennaf yn Lloegr oherwydd trefniadau cyllido llywodraeth Cymru. Gall hyn rwystro twf economaidd yn y tymor hir.
- Mae terfyn ar faint o fenthyca mae llywodraeth Cymru yn gallu ei wneud, ac felly bydd angen archwilio projectau yn ofalus i wneud yn siŵr bod pwerau benthyca yn cael eu defnyddio'n briodol.
- Mae perygl y bydd projectau fel y rhain yn profi i fod yn eliffantod gwyn, gan greu bwrn ar y pwrs cyhoeddus yn y tymor canolig, heb greu'r swyddi na'r manteision oedd wedi'u disgwyl a chostio mwy na'r hyn gafodd ei ragfynegi.
- Fel y nodwyd uchod, bydd y benthyca'n effeithio ar Gymru gyfan ond mae'r projectau wedi'u lleoli yng Nghaerdydd ac Abertawe. Felly mae'n go bosibl y bydd unrhyw ostyngiad mewn diweithdra yn lleoledig iawn.

| Cw.2 (e) | **I ba raddau bydd cynnydd yng nghyfraddau llog gan Fanc Lloegr yn niweidiol i economi Cymru? [10]** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Band** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** |
| | **2 farc** | **2 farc** | **2 farc** | **4 marc** |
| | Mae'r ateb yn dangos dealltwriaeth dda o'r problemau y gallai cynnydd yng nghyfraddau llog eu hachosi. | Ydy'r ateb wedi'i wreiddio'n dda yng nghyd-destun economi Cymru yn hytrach na bod yn hollol ddamcaniaethol? | Ydy'r syniadau AA1 wedi cael eu datblygu a'u cysylltu â'r manteision i economi? | Ydy gwrthddadleuon wedi cael eu gwneud a'u datblygu? |
| **2** | **2 farc**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn gallu nodi dwy broblem y gallai cynnydd yng nghyfraddau llog eu hachosi. | **2 farc**<br><br>Cymhwyso da at economi Cymru.<br><br>Cyfeirio clir at y data.<br><br>Mae'r effeithiau wedi'u gwreiddio'n dda yn yr achos, gan edrych naill ai yn fanwl ar un effaith sy'n benodol i Gymru neu yn fwy tebygol yn llai manwl ar amrywiaeth ehangach. | **2 farc**<br><br>Dadansoddiad da sy'n datblygu dau bwynt yn llawn ac yn gwneud esboniad economaidd cadarn ynghylch sut bydd cynnydd yng nghyfraddau llog yn niweidiol i economi Cymru. | **3-4 marc**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn gwerthuso'n llwyddiannus neu'n darparu dwy wrthddadl dda i'r pwyntiau a wneir yn AA3.<br><br>Mae'r gwerthuso wedi'i angori'n dda yn y syniad o pam efallai na fydd cynnydd yng nghyfraddau llog mor bwysig â hynny i Gymru yn hytrach na thrafodaeth fwy generig. |
| **1** | **1 marc**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn gallu nodi un broblem y gallai cynnydd yng nghyfraddau llog ei hachosi. | **1 marc**<br><br>Cymhwyso cyfyngedig at economi Cymru. | **1 marc**<br><br>Dim ond un pwynt wedi'i gynnig – sy'n dangos dadansoddi da.<br><br>NEU<br><br>Sawl pwynt sydd â dadansoddi cyfyngedig yn unig. | **1-2 farc**<br><br>Dim ond un pwynt wedi'i gynnig – sy'n dangos gwerthuso da.<br><br>NEU<br><br>Sawl pwynt sydd â gwerthuso cyfyngedig yn unig. |
| **0** | **0 marc**<br><br>Dydy'r ymgeisydd ddim yn nodi unrhyw broblem y gallai cynnydd yng nghyfraddau llog ei hachosi. | **0 marc**<br><br>Mae'r ateb yn ddamcaniaethol i raddau helaeth a gallai fod yn gymwys i unrhyw economi. | **0 marc**<br><br>Nodi pwyntiau heb ddadansoddi neu ddadansoddi anghywir.<br><br>Dim ond ailadrodd y data heb esbonio. | **0 marc**<br><br>Dim gwerthuso wedi'i gynnig.<br><br>NEU<br><br>Mae'r ymgeisydd ddim ond yn nodi materion ond nid yw'n eu datblygu nhw o gwbl. |

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynnwys dangosol:**

Bydd disgwyl i gynnydd yng nghyfraddau llog wneud y canlynol:

AA1/3:

- Gostwng treuliant (C) oherwydd cynnydd yng nghost ymwad cynilo, cynnydd yng nghost benthyca ac effeithiau ar gyfradd morgeisiau/prisiau asedau
- Gostwng buddsoddiant (I) oherwydd cynnydd yng nghost benthyca a llai o obaith am dwf.
- Cynyddu gwerth sterling (Mewnlifoedd cyfalaf yn cynyddu/all-lifoedd cyfalaf yn gostwng). Felly mae GC yn gostwng (C, I ac X yn llai/cyfradd twf yn gostwng). Felly gall hyn niweidio economi Cymru drwy ostwng twf, cynyddu diweithdra a niweidio perfformiad allforion.
- Mae prisiau asedau yn debygol o ostwng o ganlyniad ac felly gall fod effaith gyfoeth negyddol gan arwain at ostyngiad yn GC ledled Cymru.

AA2:

- “mae allforion wedi dyblu ac mae buddsoddi yng Nghymru o’r tu allan nawr ar y lefel uchaf erioed." Efallai bydd cynnydd yng nghyfraddau llog yn gwrthio’r manteision hyn.
- Mae diweithdra eisoes yn uwch na chyfartaledd y DU, sy’n golygu y gall cynnydd yng nghyfraddau llog fod yn llai priodol yng Nghymru na mannau eraill.
- Yn yr un modd mae enillion gryn dipyn yn is yng Nghymru nag yn Lloegr.
- Os bydd benthyca’n digwydd ar gyfer projectau cyfalaf, efallai bydd cost dymor-hir cynnal y ddyled hon yn cynyddu.

AA4

Ar y llaw arall, efallai na fydd cynnydd yng nghyfraddau llog gynddrwg â hynny:

- Os yw gwariant cyfalaf yn cynyddu, efallai bydd y cynnydd yng nghyfraddau llog yn helpu i leddfu pwysau chwyddiannol.
- Er bod diweithdra’n uwch nag yn Lloegr, mae’n dal yn eithaf isel – mae perygl y gall pwysau chwyddiannol gynyddu.
- Yn yr un modd, mae diweithdra yng Nghymru yn debyg i sawl rhan o’r DU ac yn is na rhai. Dydy Cymru ddim o reidrwydd mor wahanol â hynny.
- Mae economi Cymru yn tyfu’n gyflym o ran *GVA* y pen, ac felly efallai bydd mewn gwell sefyllfa i ymdopi â chynnydd yng nghyfraddau llog na mannau eraill.

Efallai bydd tystiolaeth o’r gorffennol o effeithiau cynnydd yng nghyfraddau llog ar Gymru yn cael ei defnyddio ar y naill ochr neu’r llall i’r drafodaeth.

Yn fwy cyffredinol:

- Mae codiadau yng nghyfraddau llog wedi tueddu i fod yn gymharol fach, gan gael eu cyflwyno mewn camau. Felly gall fod amser i’r economi addasu.

Mae oediadau sylweddol mewn cyfraddau, sy’n golygu y gall economi Cymru fod wedi dechrau cyfnerthu ei enillion cyn bod effaith cynnydd yn debygol o gydio.



© WJEC CBAC Cyf.